# Y CYNGOR 20/10/11

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd John Gwilym Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd R Leonard Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Stephen Churchman, Endaf Cooke, Anwen Davies, E T Dogan, Dyfed Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Trevor Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Alun Wyn Evans, Jean Forsyth, Keith Greenly-Jones, Gwen Griffith, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllïan, Christopher Hughes, Huw Price Hughes, Louise Hughes, O P Huws, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, , Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, Penri Jones, Eryl Jones-Williams, P.G.Larsen, Dewi Llewelyn, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Keith Marshall, J Wynn Meredith, Llinos Merks, Dafydd Meurig, Linda Morgan, Dewi Owen, W Roy Owen, W Tudor Owen, Arwel Pierce, Peter Read, Dafydd Roberts, E Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Siôn S. Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Paul Thomas, Guto Rhys Tomos, Ann Williams, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams, Owain Williams, R H Wyn Williams, Mandy Williams-Davies a Robert J Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilwyn O Williams, Dafydd Lewis ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Cyfeiriad Strategol), Vera Jones (Uwch Reolwr Perfformiad ac Effeithlonrwydd), Gareth James (Rheolwr Craffu), Gwen Carrington (Pennaeth Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol), Dafydd Owen (Rheolwr Comisiynu), Glyn Tomos (Rheolwr Gwasanaeth Anabledd Dysgu a Chorfforol), Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio), Nia Haf Davies (Rheolwr Cynllunio – Polisi) ac Eleri Parry (Arweinydd Tîm Pwyllgorau)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Dylan Edwards, Simon Glyn, Sylvia Humphreys Charles Wyn Jones, Dyfrig Wynn Jones, Evie Morgan Jones a Trevor Roberts

**1. GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Huw Edwards

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2011 fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

(i) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn yr eitem "Canlyniad yr Ymgynghoriad ar Ddyfodol Cartrefi Preswyl Tan y Marian Pwllheli a Phant yr Eithin, Harlech" oherwydd y rhesymau a nodir:

- Y Cynghorydd Linda Morgan oherwydd bod aelod o'r teulu yn gweithio yng nghartref Pant yr Eithin;
- Y Cynghorydd Linda Wyn Jones oherwydd bod un o breswylwyr Pant yr Eithin yn mynychu gofal dydd yng nghwmni Seren a'i bod yn Brif Weithredwr y cwmni

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu, a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

(ii) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn y rhybudd o gynnig yn ymwneud â symud y prif safle bysus i'r Maes yng Nghaernarfon oherwydd y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorwyr O P Huws ac Ioan Thomas oherwydd eu bod yn berchnogion busnes ar Y Maes;

Roedd yr aelodau o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, a gadawsant y cyfarfod yn ystod yr eitem.

(iii) Datganodd y Cynghorydd Endaf Cooke fuddiant personol yn y rhybudd o gynnig yn ymwneud â gosod dodrefn stryd oherwydd ei fod yn berchen busnes oedd â dodrefn stryd.

Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, a gadawodd y cyfarfod yn ystod yr eitem.

(iii) Datganodd y Cynghorydd Endaf Cooke fuddiant personol yn y rhybudd o gynnig yn ymwneud a symud y prif safle bysus i'r Maes yng Nghaernarfon oherwydd ei fod yn berchen busnes yn y dref

Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a nodwyd ei fwriad i gymryd rhan lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

(iv) Datganodd y Cynghorydd E Caerwyn Roberts fuddiant personol yn yr eitem "Canlyniad yr Ymgynghoriad ar Ddyfodol Cartrefi Preswyl Tan y Marian Pwllheli a Phant yr Eithin, Harlech" oherwydd bod ganddo wyres ag anableddau dysgu ond nad oedd mewn gofal.

Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(i) Yn absenoldeb yr aelod, cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Charles Wyn Jones ar golli ei frawd yn ddiweddar.

(ii) Croesawyd y Cynghorwyr Dr Elin Walker Jones aelod tros ward Glyder, Bangor, Mandy Williams-Davies aelod dros ward Diffwys a Maenofferen, Blaenau Ffestiniog a Gareth Thomas, aelod tros ward Penrhyndeudraeth i'w cyfarfod cyntaf o'r Cyngor hwn yn dilyn eu llwyddiant yn yr etholiadau diweddar.

(iii) Croesawyd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn ôl i'r Cyngor yn dilyn llawdriniaeth, hefyd y Cynghorydd Gwen Griffith yn dilyn anhwylder diweddar.

(iv) Llongyfarchwyd Geraint Lloyd Owen, Bontnewydd ar ennill y Goron yn Eisteddfod Wrecsam, ynghyd â Rhys Iorwerth ar gipio'r Gadair.

Hefyd, llongyfarchwyd James Palmer o ardal Tywyn, ar ennill y Groes Filitaraidd am ei ddewrder yn Afghanistan.

Yn ogystal, llongyfarchwyd Ieuenctid y sir yn dilyn yr arholiadau diweddar, a diolchwyd i'w hathrawon am eu harweiniad a'u cefnogaeth.

Yn olaf, llongyfarchwyd y Cyngor ar dderbyn gwobr aur Safon Iechyd Corfforaethol mewn seremoni yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Nodwyd bod y wobr yn cael ei redeg gan Lywodraeth Cymru ac mae'r wobr yn adlewyrchu'r ffaith fod materion iechyd a lles y gweithlu yn greiddiol i holl waith y Cyngor.

## 5 MATER BRYS

Cytunodd y Cadeirydd, o dan Adran 100B (4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972, i gynnwys y mater yn ymwneud a Datganid Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2011/12 oherwydd bod gwybodaeth hwyr ynglŷn â gradd credyd banciau wedi dod i law ar 14/10/11 a bod angen gweithredu er mwyn sicrhau parhad busnes heb dramgwyddo polisïau'r Cyngor.

## 6 CYFEIRIO'N UWCH YN UNOL Â RHEOL GWEITHDREFN 21

(a) Adroddwyd bod y nifer priodol o aelodau wedi rhoddi rhybudd ysgrifenedig eu bod yn dymuno cyfeirio'r mater isod yn uwch.

**Canlyniad yr Ymgynghoriad ar ddyfodol cartrefi preswyl Tan y Marian, Pwllheli a Phant yr Eithin, Harlech**

(b) Adroddwyd bod Bwrdd y Cyngor yn ei gyfarfod ar 26 Gorffennaf 2011 wedi penderfynu fel a ganlyn:-

**PENDERFYNWYD**

**(i) Dod â defnydd presennol Pant yr Eithin, Harlech fel darpariaeth gofal preswyl i ben a sicrhau bod holl breswylwyr cartrefi preswyl cyfredol Pant yr Eithin, Harlech a Than y Marian, Pwllheli yn parhau i dderbyn gwasanaeth mewn darpariaeth llety byddai'n addas a phriodol i'w hasesiadau anghenion;**

**(ii) Bod angen datblygu safle Pant yr Eithin mor fuan â phosibl;**

**(iii) Bod aelodau Pwyllgor Craffu Gofal yn derbyn adroddiadau cynnydd ar y cynllun ym mis Tachwedd 2011 a mis Mawrth 2012**

(c) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ganlyniad yr ymgynghoriad statudol ar ddyfodol cartrefi preswyl Tan y Marian, Pwllheli a Phant yr Eithin, Harlech, er mwyn ystyried dyfodol y ddau gartref.

(ch) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol, a manylwyd ar y prif ystyriaethau, a sail yr argymhellion.

Pwysleisiwyd bod cytundeb nad oedd model traddodiadol o ofal preswyl yn addas ar gyfer y dyfodol, a bod y cynllun arloesol arfaethedig yn rhan o weledigaeth y Cyngor ar gyfer gwella ansawdd y ddarpariaeth, a datblygu gwasanaeth sy'n addas a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Eglurwyd bod bwriad sefydlu uned breswyl yn Nhan y Marian, a dod a defnydd presennol Pant yr Eithin i ben, a datblygu'r safle ar gyfer tai fforddiadwy ac adnoddau arbennig ar gyfer pobl ag anabledd. Manylwyd ar sefyllfa preswylwyr cyfredol y ddau gartref, y trefniadau arfaethedig ar eu cyfer a'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol.

Pwysleisiwyd bod Cymdeithas Tai Eryri wedi datgan diddordeb pendant mewn cydweithio gyda'r Cyngor ar y datblygiad, a bod Adain Eiddo'r Cyngor wedi cadarnhau nad oedd rhwystr i'r tir fod ar gael ar gyfer y datblygiad.

Adroddwyd bod nifer o aelodau, swyddogion, defnyddwyr a'u teuluoedd wedi ymweld â darpariaeth newydd modern yn Ellesmere Port yn dddiwedar. Roedd cytundeb bod y ddarpariaeth yn wirioneddol wych, a bod angen symud ymlaen gyda darpariaeth debyg yma yng Ngwynedd, er mwyn sicrhau gwell darpariaeth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn y sir.

(d) Rhoddwyd cyfle i aelodau lleol ddatgan barn ynglŷn â'r cynllun, a nododd aelod Harlech y sylwadau canlynol:-

- bod son am gau cartref Pant yr Eithin ers blynyddoedd lawer, bod yr ansicrwydd yn peri poen a loes i breswylwyr, teuluoedd a staff a bod angen cytuno ffordd ymlaen yn ddi-oed;
- bod tystiolaeth helaeth bod angen unedau arbenigol ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu a thai fforddiadwy ym Meirionnydd, a dylid manteisio ar y cyfle i gydweithio gyda Chymdeithas Tai Eryri i ddatblygu'r cynllun ar safle Pant yr Eithin;
- gwelwyd darpariaethau ardderchog yng Nghonwy ac Ellesmere Port, a bod angen sicrhau darpariaeth debyg yng Ngwynedd er mwyn rhoi cyfle i bobl ag anableddau dysgu integreiddio yn y gymuned a byw yn fwy annibynnol

Gyda chytundeb y cynigydd a'r eilydd, cytunwyd i ychwanegu gwelliant canlynol yr aelod lleol i'r argymhellion gwreiddiol:-

- *Bod gweithgor o swyddogion Cyngor Gwynedd a Chymdeithas Tai Eryri ynghyd â'r aelodau portffolio, aelod lleol, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal a chynrychiolydd o'r defnyddwyr yn cael ei sefydlu ar fyrder er mwyn cytuno ar amserlen, cerrig milltir penodol a manylion manwl y datblygiad ar safle Pant yr Eithin, a bod adroddiad llawn yn nodi manylion y cynllun yn dod yn ôl i'r Pwyllgor Craffu Gofal o fewn tri mis;*
- *Derbyn yr egwyddor bod y Cyngor yn symud ymlaen i drosglwyddo safle Pant yr Eithin i Gymdeithas Tai Eryri;*
- *Bod swyddogion yn gwneud pob ymdrech i gartrefu, yn ardal Harlech, un o'r preswylwyr sydd wedi cartrefu ym Mhant yr Eithin ers 28 mlynedd.*

(dd) Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelod Pwllheli (De):-

- mai cartref i bobl fregus oedd dan sylw a bod nifer o'r preswylwyr wedi byw yn y cartrefi am flynyddoedd lawer;
- bod gofal o'r radd flaenaf yn cael ei ddarparu yn y ddau gartref a bod y staff yn poeni am ddyfodol y preswylwyr;
- bod cefnogaeth i gadw'r ddau gartref preswyl yn agored a bod canlyniad yr ymgynghori wedi ei anwybyddu;
- bod posibl y byddai rhaid i un o drigolion Pant yr Eithin symud allan o Wynedd os fydd y cartref yn cau, ac na fydd lle i un o drigolion Tan y Marian pe byddai trigolion Pant yr Eithin yn cael eu lleoli yno;
- y dylid adeiladu'r unedau cyn dymchwel adeilad presennol Pant yr Eithin. Gofynnwyd i'r gweithgor roi ystyriaeth i hyn;
- ei fod yn siomedig iawn na dderbyniodd wahoddiad i ymweld â'r ddarpariaeth yn Ellesmere Port gyda'r aelodau eraill;

(e) Mynegwyd y sylwadau cyffredinol gan aelodau eraill, sef:-

- pryder dybryd ynglŷn ag un preswylydd yn Nhan y Marian, oedd ddim mewn sefyllfa i fyw'n annibynnol yn y gymuned;
- anfodlonrwydd bod canlyniad yr ymgynghori wedi ei anwybyddu. Nodwyd bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi bod gan y Cyngor broblem sylfaenol gyda'r modd mae'n ymgysylltu gyda'r cyhoedd;
- petruso y byddai preswylwyr gydag anghenion dwys sydd methu a byw yn annibynnol yn cael eu symud ymhellach oddi wrth eu teuluoedd a bod anodd arall yn cael ei golli o Feirionnydd;
- bod defnyddwyr a theuluoedd oedd wedi ymweld â'r ddarpariaeth yn Ellesmere Port yn gefnogol iawn i gael darpariaeth debyg yng Ngwynedd

(f) Nodwyd bod cefnogaeth yn y Pwyllgor Craffu Gofal i oedi penderfyniad er mwyn caniatáu amser i Gymdeithas Tai Eryri gyflwyno'i gynlluniau ac i'r arian gael ei gadarnhau. Fodd bynnag, oherwydd bod y gwelliant yn fodd i sicrhau na fydd symud ymlaen tan fydd yr holl drefniadau yn eu lle,

nododd sawl aelod o'r pwyllgor eu bod yn barod i gefnogi'r argymhellion diwygiedig.

Eglurodd Cadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal ei fod wedi gweld darpariaethau modern ardderchog, a'i fod yn llwyr gefnogol i'r argymhellion, er mwyn sicrhau gwell darpariaeth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.

(ff) Mewn ymateb i amrywiol sylwadau'r aelodau nodwyd y canlynol gan y Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol:-

- byddai'n anodd codi'r unedau cyn dymchwel adeilad Pant yr Eithin gan fod y datblygiad arfaethedig ar ganol y safle a byddai'n anodd adeiladu o amgylch yr adeilad presennol;
- eu bod mewn trafodaethau cyson gyda'r preswylwyr a'u teuluoedd, a bod bwriad datblygu'r gwasanaeth mewn ffordd fyddai'n cyfarch a diogelu buddiannau pobl gydag anableddau dysgu, gan gynnwys cartrefu, yn ardal Harlech, y preswylydd oedd wedi cartrefi ym Mhant yr Eithin ers 28 mlynedd;
- bod 4 o'r preswylwyr eraill fyddai'n symud i Bwllheli angen gofal preswyl ac na fyddant yn dychwelyd i Harlech. Eglurwyd bod un o'r pedwar ag anghenion dwys a'u bod yn y broses o drafod addasrwydd lleoliad ar ei chyfer yn lleol neu'n rhanbarthol;
- mai man cychwyn oedd y cynllun yn Harlech ac mai'r bwriad oedd ei ledaenu drwy'r Sir, a bod bwriad trefnu i aelodau ymweld â'r math o ddarpariaeth fydd ar gael;
- bod y cynllun ar y gweill ers blynyddoedd lawer a bod yr oedi wedi creu pryder a gofid, a'i bod yn mawr obeithio y bydd y Cyngor yn dod i benderfyniad er mwyn hwyluso'r trefniadau;
- bod rhaid ystyried cynlluniau yn yr hir dymor. Pwysleisiodd bod llawer o bobl yng Ngwynedd gydag anabledd dysgu yn byw gyda'u rhieni, ac yn debygol o fod angen lle i fyw yn y dyfodol, ynghyd â nifer o bobl ifanc sy'n dymuno byw'n annibynnol.
- bod trafodaethau ynglŷn â swyddi ar y gweill rhwng gwasanaethau Darparu ac Adnoddau Dynol, er mwyn ceisio cynllunio ar gyfer unrhyw newid swyddi. Nodwyd bod galw mawr am swyddi ym maes gofal ym Meirionnydd.

Wrth gloi pwysleisiodd yr Arweinydd Portffolio bod darpariaeth breswyl draddodiadol yn anaddas, bod y Cynllun yn sicrhau darpariaeth well. Pwysodd ar aelodau i gefnogi'r cynllun er mwyn gwireddu'r weledigaeth a symud ymlaen i sicrhau'r adnoddau gorau posibl ar gyfer bobl ag anableddau dysgu yng Ngwynedd.

Diolchwyd i staff Pant yr Eithin am eu gofal a'u gwaith clodwiw ar hyd y blynyddoedd. Nodwyd y gwenir pob ymdrech i ddefnyddio'u profiad a'u harbenigeddau yn y dyfodol.

Diolchwyd hefyd i ymroddiad yr aelodau lleol, ac i Arweinydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol a swyddogion am eu gwaith i ddod a'r adroddiad gerbron.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Dod â defnydd presennol Pant yr Eithin, Harlech fel darpariaeth gofal preswyl i ben a sicrhau bod holl breswylwyr cartrefi preswyl cyfredol Pant yr Eithin, Harlech a Than y Marian, Pwllheli yn parhau i dderbyn gwasanaeth mewn darpariaeth llety addas a phriodol i'w hasesiadau anghenion;**

**(ii) bod swyddogion yn symud ymlaen i ddilyn proses ffurfiol gyda Chymdeithas Tai Eryri er mwyn llunio Cynllun Busnes ar gyfer datblygu'r tir yn unol â'r wybodaeth sydd yn Atodiad E i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol;**

**(iii) Bod gweithgor o swyddogion Cyngor Gwynedd a Chymdeithas Tai Eryri ynghyd a'r aelodau portffolio, aelod lleol, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal a chynrychiolydd o'r defnyddwyr yn cael ei sefydlu ar fyrder er mwyn cytuno ar amserlen, cerrig milltir penodol a manylion manwl y datblygiad ar safle Pant yr Eithin, a bod adroddiad llawn yn nodi manylion y cynllun yn dod yn ôl i'r Pwyllgor Craffu Gofal o fewn tri mis;**

**(iv) Derbyn yr egwyddor bod y Cyngor yn symud ymlaen i drosglwyddo safle Pant yr Eithin i Gymdeithas Tai Eryri;**

**(v) Bod swyddogion yn gwneud pob ymdrech i gartrefu, yn ardal Harlech, un o'r preswylwyr sydd wedi cartrefu ym Mhant yr Eithin ers 28 mlynedd.**

**7. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ar ddyraniad seddau a chadeiryddiaethau/is-gadeiryddiaethau pwyllgorau yn sgil newid diweddar yng nghydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

(a) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan yr Arweinydd.

Eglurwyd bod cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor wedi newid oherwydd bod Grŵp Plaid Cymru wedi ennill isetholiadau diweddar yn wardiau Glyder, Bangor, Diffwys a Maenofferen, Blaenau Ffestiniog a Phenrhyndeudraeth.

Nodwyd bod gan Grŵp Plaid Cymru, am y tro cyntaf yn oes y Cyngor hwn, fwyafrif seddau ar y Cyngor, a bod rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp mwyafrifol o aelodau'r Cyngor. Golygir bod Grŵp Plaid Cymru'n ennill 12 sedd a'r grwpiau eraill yn colli 12 sedd.

Eglurodd yr Arweinydd ei fod wedi gwrando barn aelodau ei grŵp, a barn y Grŵp Busnes. Er mwyn parhau i gydweithio'n gynhwysol a chadw aelodau profiadol yn eu swyddi tan yr etholiad ym mis Mai, er lles pobl Gwynedd, roedd cytundeb na ddylid gweithredu'r newidiadau.

(b) Os oedd aelodau'n dymuno peidio dyrannu seddau ar sail cydbwysedd gwleidyddol, pwysleisiodd y Pennaeth Democratiaeth y byddai'n rhaid i'r aelodau bleidleisio'n unfrydol tros y cynnig

(c) Yn ogystal, eglurwyd bod y newid i gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor wedi cael ychydig effaith ar gadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau y

prif bwyllgorau gyda Grŵp Plaid Cymru yn ennill un is-gadeiryddiaeth. Nodwyd bod is-gadair Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn wag.

**PENDERFYNWYD**

**(i) nodi bod Cyfansoddiad presennol y Cyngor fel a ganlyn:-**

| | |
|---|---|
| **Plaid Cymru** | **38** |
| **Annibynnol** | **16** |
| **Llais Gwynedd** | **12** |
| **Democratiaid Rhyddfrydol** | **4** |
| **Llafur** | **4** |
| **Aelod Unigol** | **1** |

**(ii) beidio newid dyraniad y seddau ar y pwyllgorau fel y noder yn 2.5 - 2.8 o adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ond gadael aelodaeth y pwyllgorau fel ag y maent am weddill oes y Cyngor presennol;**

**(iii) parchu penderfyniad Pwyllgor Ardal Meirionnydd i adael is-gadeiryddiaeth y pwyllgor yn wag a pheidio dyrannu is-gadair i Grŵp Plaid Cymru;**

## 8 TREFNIADAU DEMOCRATAIDD Y CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ar gynigion drafft i newid i drefniadau gweithredol (sef trefn gabinet) o fis Mai, 2012.

(a) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan yr Arweinydd, ac eglurwyd bod y gweithgor, y Prif Bwyllgor Craffu a'r Bwrdd yn cefnogi ffurf Arweinydd a Chabinet, gyda'r Arweinydd yn penodi'r Cabinet, er mwyn sicrhau trefniadau effeithlon tryloyw ac atebol.

.

(c) Mynegodd aelod gryn anfodlonrwydd bod y trefniadau newydd yn grymuso nifer bach o aelodau ac yn crebachu grym yr aelod cyffredin.

Eglurodd y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol bod gwaith y gweithgor yn parhau er mwyn sicrhau bod y Cyngor newydd yn gweithredu mewn modd fydd yn rhoi rôl gref i aelod mainc gefn, a bydd adroddiad pellach yn cyfarch yr elfen hon yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Rhagfyr.

(ch) Pwysleisiodd yr aelod ymhellach bod diwylliant o gydweithio yn y Cyngor. Cyfeiriodd at y modd oedd y Cyngor wedi cyrraedd consensws ar faterion cynhennus trwy ddeialog a chydweithio, a'i fod yn betrus na fydd hynny'n bosibl o dan y drefn newydd.

(ch) Nododd ddymuniad i'r Cyngor newydd fod yn gynhwysol a democratiaid er lles trigolion Gwynedd, a chynigiodd welliant bod aelodaeth y Cabinet newydd ar sail cydbwysedd gwleidyddol yn hytrach na bod yr Arweinydd yn dewis y Cabinet.

Eglurodd y Pennaeth Democrataidd a Chyfreithiol nad oedd y gwelliant yn cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol o ran anfon cynigion i'r Cynulliad.

(d) Roedd sawl aelod yn ffafrio i'r Cabinet fod ar sail cydbwysedd gwleidyddol. Fodd bynnag roedd cytundeb mai mater i'r Cyngor newydd oedd cytuno'i drefniadau gweithredol. Hefyd roedd pryder y byddai clymu dwylo'r Cyngor newydd yn gallu arwain at oedi yng ngweinyddiaeth y Cyngor - pe byddai'n dymuno newid y trefniadau.

Eglurodd yr Arweinydd bod gan y Cyngor newydd rôl allweddol i benderfynu sut fydd y Cyngor newydd yn gweithredu a bod y drws yn agored iddo wneud hynny.

(dd) Roedd rhai aelodau'n pryderu y bydd Arweinydd yn dewis aelodau o'i blaid ei hun ar y Cabinet, tra bod eraill yn hyderus y bydd yr Arweinydd yn ddigon doeth i ddewis yr aelodau gorau ar gyfer y gwaith.

(e) Nododd aelod o'r Gweithgor bod trefn gyda'r Cyngor yn penodi'r un fath a threfn gyda'r Arweinydd yn penodi mewn gwirionedd, gan mai'r Arweinydd oedd yn enwebu yn yr ychydig gynghorau lle'r oedd y Cyngor yn penodi. Roedd o'r farn bod trefn Arweinydd yn penodi yn fwy agored a democrataidd.

(f) Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd y Pennaeth bod y Panel oedd yn gosod cyflogau aelodau yn gweithio ar y dybiaeth bod gwaith y Cabinet yn llawn amser, ond nad oedd gwaharddiad i aelod o'r Cabinet ddal swydd arall.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod fel sail i gynigion drafft am y rhesymau a nodi yn adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol:-**

**(a) ffurf Arweinydd a Chabinet o weithrediaeth;**
**(b) model lle mae'r Arweinydd yn penodi Cabinet;**
**(c) y newidiadau a amlinellir ym mharagraff 4.3 o adroddiad y Pennaeth ar gyfer swyddogaethau dewisol;**
**(ch) gweithredu'r trefniadau newydd ym Mai 2012 ar gychwyn tymor y Cyngor newydd heb drefniadau trosiannol**

**9 CYRHAEDDIAD Y CYNGOR 2010/11**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Polisi a Pherfformiad a phapurau diwygiedig ar gyrhaeddiad y Cyngor ar gyfer 2010/11.

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd y Cyngor.

Eglurwyd bod yr adroddiad yn adrodd ar berfformiad blwyddyn olaf y Cynllun Tair Blynedd ac yn sicrhau bod y Cyngor yn atebol i drigolion Gwynedd am ei berfformiad a'i weithgareddau. Amlinellir yr hyn y mae'r Cyngor wedi llwyddo i'w gyflawni yn erbyn ei gynlluniau a'i dargedau ar gyfer 2010/11.

Nodwyd bod y gwelliannau wedi eu cyflawni mewn cyd-destun ariannol heriol, a'i bod yn debyg y bydd y sefyllfa'n parhau am beth amser eto. Serch hynny pwysleisiodd ei bod yn bwysig parhau i fod yn uchelgeisiol ac i ymdrechu i wella gwasanaethau i drigolion y sir.

Adroddodd yr Uwch Reolwr Cyfeiriad Strategol bod y Bwrdd wedi penderfynu nad oedd angen rhoi hawl i'r Pennaeth Strategol a Gwella gwneud newidiadau golygyddol i'r ddogfen. Oherwydd bod papurau'r Cyngor wedi eu hargraffu cyn i'r Bwrdd wneud ei benderfyniad, roedd cywiriadau i'r ddogfen wedi eu dosbarthu i'r aelodau ar ddechrau'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r ddogfen a'r papurau diwygiedig fel adlewyrchiad cywir a theg o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei brif welliannau a dangosyddion yn ystod 2010/11.**

## 10 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD - CYTUNDEB CYFLAWNI

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio i roi gwybod i'r Cyngor am y Cytundeb Cyflawni ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, ac i ofyn i'r Cyngor i'w fabwysiadu fel y gellir ei gyflwyno am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

(a) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Uwch Arweinydd Amgylchedd.

(b) Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn wedi dechrau'r gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd) ar gyfer ardal Awdurdodau Cynllunio Môn a Gwynedd, a bod rhaid paratoi Cytundeb Cyflawni fel y cam cyntaf yn y broses.

Eglurwyd bod gweithgor o aelodau a swyddogion o gynghorau Môn a Gwynedd wedi bod yn gweithio ar y Cytundeb, a bod yr adroddiad yn manylu ar swyddogaeth y Cytundeb Cyflawni, a'r broses o baratoi'r Cytundeb ynghyd â'r camau nesaf yn y broses o'i lunio.

(c) Nododd aelod bod y maes yn eithriadol bwysig ac y dylid cynnal seminar ar gyfer aelodau'r Cyngor er mwyn cael trafodaeth fanwl ar yr holl faes.

Eglurodd y Pennaeth Rheoleiddio bod y ddogfen oedd gerbron yn amlinellu'r broses a'r camau statudol a fydd yn cael eu dilyn ar gyfer rhoi'r Cynllun yn ei le. Sicrhawyd y Cyngor y bydd cyfleoedd yn y dyfodol i bob aelod gael mewnbwn i gynnwys y CDLl ar y Cyd trwy seminarau a phwyllgorau.

Pwysleisiodd ymhellach bod Cyngor Ynys Môn wedi cymeradwyo'r Cytundeb eisoes. Eglurodd y byddai oedi penderfyniad tan y Cyngor ym mis Rhagfyr, er mwyn cynnal seminar, yn golygu methiant i gyrraedd targedau penodol ac oediad o rai misoedd cyn i'r Cynllun fod yn ei le.

Syrthiodd gwelliant i oedi penderfyniad er mwyn cynnal seminar ar gyfer holl aelodau'r Cyngor er mwyn cael trafodaeth fanwl ar y maes. Fodd bynnag, roedd cytundeb bod angen trefnu seminar maes o law, i egluro'r drefn newydd ac i ystyried cynnwys y Cynllun.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Mabwysiadu'r Cytundeb Cyflawni i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.**

**(ii) Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Rheoleiddio wneud man newidiadau i'r Cytundeb Cyflawni yn ôl yr angen yn sgil derbyn sylwadau Llywodraeth Cymru.**

## 11 ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A CHRAFFU 2010/11

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu i'w dderbyn gan y Cyngor.

Adroddwyd bod angen adrodd yn flynyddol i'r Cyngor ar waith y pwyllgorau craffu , a bod y ddogfen yn ymhelaethu ar y prif wahaniaethau a wnaed yn sgil gwaith y pwyllgorau craffu a'r gweithgorau gwella. Hefyd nodir llwyddiannau eraill ynghyd â blaenoriaethau am y flwyddyn i ddod.

Gwahoddwyd aelodau i holi cadeiryddion y pwyllgorau craffu.

Diolchwyd i gadeiryddion, is-gadeiryddion, aelodau a swyddogion craffu am eu cyfraniad gwerthfawr i'r maes.

**PENDERFYNWYD derbyn Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu.**

## 12 RHYBUDDION O GYNNIG

(a)(i) Yn unol â Rheol Gweithdrefn 13, adroddwyd y derbyniwyd rhybudd o gynnig, ynghyd â rhybudd trefniadaethol, yn unol â Rheol Gweithdrefn 13 (12), oddi wrth y Cynghorydd Owain Williams, yn gofyn am gael trafod y cynnig canlynol yn y Cyngor llawn, yn hytrach na'i gyfeirio i bwyllgor:-

***"Bod Cyngor Gwynedd yn cymryd camau yn ddi-oed i atal codi unrhyw dâl ar fusnesau mewn trefi'r Sir am osod dodrefn stryd er mwyn denu cwsmeriaid. Mewn cyfnod o drai economaidd pan mae busnesau yn dioddef yn enbyd mae'r ffioedd hyn yn lladd mentergarwch ac yn llethu buddsoddiad."***

**PENDERFYNWYD peidio trafod y cynnig a'i gyfeirio i'w ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Amgylchedd.**

(b) Yn unol â Rheol Gweithdrefn 13, adroddwyd y derbyniwyd rhybudd o gynnig, ynghyd a rhybudd trefniadaethol yn unol â Rheol Gweithdrefn 13 (12), oddi wrth y Cynghorydd Endaf Cooke yn gofyn am gael trafod y cynnig canlynol yn y Cyngor llawn yn hytrach na'i gyfierio i bwyllgor:-

***"Yn dilyn nifer o achosion diweddar yn ymwneud â gwylanod môr yn creu niwsans mewn rhai o drefydd arfordirol, galwaf ar y Cyngor hwn i gymryd y mesurau angenrheidiol i ymdrin â'r broblem, a hynny'n ddiymdroi.***

***Dylem fel corff cyhoeddus ddangos arweiniad clir a chadarn i amddiffyn ein trigolion ac ymwelwyr rhag y pla cynyddol hwn"***

**PENDERFYNWYD peidio trafod y cynnig a'i gyfeirio i'w ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Amgylchedd.**

(c) Yn unol â Rheol Gweithdrefn 13, adroddwyd y derbyniwyd rhybudd o gynnig, ynghyd a rhybudd trefniadaethol, yn unol â Rheol Gweithdrefn 13 (12), oddi wrth y Cynghorydd Christopher Hughes yn gofyn am gael trafod y cynnig canlynol yn y Cyngor llawn yn hytrach na'i gyfierio i bwyllgor:-

***"Rwy'n cynnig fod Cyngor Gwynedd yn ymateb i'r newyddion diweddaraf sef bod busnesau yn nhref Caernarfon yn dioddef yn enbyd oherwydd y dirwasgiad economaidd; mae busnes i lawr bron i 30 y cant. Un ffordd o sicrhau gwelliant yng nghanol y dref fuasai diddymu'r arfer presennol o ddynodi man yn agos i Doc Fictoria fel prif safle bysiau a'i symud i'r Maes; felly gofynnaf am benderfyniad buan ar y mater er ceisio achub canol y dref a'r busnesau"***

**PENDERFYNWYD peidio trafod y cynnig a'i gyfeirio i'w ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Amgylchedd.**

(iii) Yn unol â Rheol Gweithdrefn 15(1) derbyniodd y Cadeirydd ddeiseb gan aelod y Cynghorydd Christopher Hughes wedi'i arwyddo gan tua 100 o unigolion oedd yn gysylltiedig â busnesau lleol yn gofyn i'r Cyngor ystyried symud y prif safle man gollwng a chasglu pobl i'r Maes yng Nghaernarfon

**13 MATER BRYS – DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS 2011/12**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid i geisio parhad trefniadau bancio dydd i ddydd y Cyngor gyda Banc Barclays, pe bai statws credyd y banc yn disgyn o "A+" i "A" yn y dyfodol.

(a) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan y Pennaeth Cyllid.

(b) Adroddwyd bod nifer o sefydliadau ariannol ar restr gwrthbartion awdurdodedig y Cyngor wedi eu hisraddio'n ddiweddar ac na fydd y Cyngor yn eu defnyddio ar gyfer buddsoddiadau newydd hyd nes bydd eu cyfraddiad credyd wedi gwella i lefel priodol.

Eglurwyd y defnyddir Barclays Bank Plc ar gyfer trefniadau banc y Cyngor, ac ar hyn o bryd mae gradd credyd "A+" Barclays yn ddigonol i'w ddefnyddio fel gwrth barti ar gyfer buddsoddiadau. Fodd bynnag, mae

ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor wedi argymell dylai'r Cyngor llawn addasu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys am 2011/12.

Mewn ymateb i bryder cyffredinol ynglŷn â'r sefyllfa, eglurodd y Pennaeth Cyllid y bydd y Pwyllgor Archwilio yn rhoi sylw rheolaidd i'r maes.

**PENDERFYNWYD er mwyn sicrhau bod trefniadau dydd i ddydd yn aros o fewn gofynion y Datganiad Strategaeth pe bai Barclays yn disgyn o dan y meini prawf gwreiddiol yn y dyfodol, cymeradwyo'r newid canlynol I Ddatganid Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2011/12:-**

***"Gan mai Barclays Bank Plc yw banc y Cyngor, bydd yn dal i gael ei defnyddio ar gyfer gofynion hylifedd tymor byr (buddsoddiadau dros nos a phenwythnosau) a threfniadau parhad busnes pe bai ei radd credyd yn disgyn o dan "A+" (neu gyfatebol) yn y dyfodol***"

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a daeth i ben am 4.10 p.m.

**CADEIRYDD**